Polisi Cynnal Dysgwyr

Cyflwyniad

Bydd Tir Coed yn darparu achrediadau Rhwydwaith Coleg Agored Cenedlaethol (RhCAC) ar gyfer ieuenctid yn rhan o brosiect WICKED (Woodland Initiatives – a Catalyst for Kids' Education & Development). Ar gyfer hyn, mae Tir Coed wedi ei chofrestru yn Ganolfan achredu RhCAC. Gan ddatgan yr hyn a nodir isod, mae Tir Coed yn cydnabod bod gan y staff a'r cyfarwyddwyr ddyletswydd gofal i lwyr gynnal yr holl ddysgwyr wrth iddynt ddilyn eu rhaglenni hyfforddiant.

Datganiad Polisi

- Bydd pob sesiwn dysgu ar gyfer criwiau bychain, heb iddynt fod yn fwy na 12 o ieuenctid, fel y gall pob dysgwr drafod gydag eraill a rhannu eu profiadau a'u gorchestion.
- Bydd pob dysgu ac asesu yn digwydd yn y sesiynau dysgu.
- Bydd pob dysgwr yn medru dysgu yn ôl eu gallu gydag amserlen addas; bydd anogaeth a chynhaliaeth ar gael yn ôl anghenion y dysgwyr unigol.
- Bydd anghenion y dysgwyr yn ganolog i'r cynllun dysgu.
- Bydd pob dysgwr yn cael ei drin yn unol â Pholisi Cyfleoedd Cyfartal a Pholisi Lles & Diogelwch Plant Tir Coed.
- Mae hawl gan pob dysgwr i ddatgan cwyn am unrhyw driniaeth y maent yn ystyried i fod yn annheg neu i apelio yn erbyn canlyniadau yr unedau gan ddilyn y camau canlynol:
  Cam 1 – Sgwrs gyda tiwtor y cwrs;
  Os nad ydynt yn hapus â'r canlyniad hyn:
  Cam 2 – Sgwrs gyda'r Swyddog Prosiect Tir Coed (rhif cyswllt ar y llythyr sefydlu);
  Os nad ydynt yn hapus â'r canlyniad hyn:
  Cam 3 – Ysgrifennu llythyr yn amlinellu'r cwyn i Gadeirydd Tir Coed:–

  Mr. Simon Hewitt, gofal Fferm Denmarc, Betws Bledrws, Llanbedr Pont Steffan, Ceredigion. SA48 8PB.